
# Sgwrs Sydyn

| | |
|---|---|
| 1 | Ble est ti yn y gwyliau? |
| 2 | Es i i Sbaen gyda'r teulu. |
| 1 | Sut est ti? |
| 2 | Es i mewn awyren. |
| 1 | Sut roedd y tywydd? |
| 2 | Roedd hi'n heulog. |
| 1 | Beth welaist ti? |
| 2 | Gwelais i gastell. Roedd y castell yn fawr. |
| 1 | Beth fwytaist ti? |
| 2 | Bwytais i hufen iâ. Dw i'n dwlu ar hufen iâ! |
| 1 | Sut amser gest ti? |
| 2 | Ces i amser da iawn! |



C.Phillips




# Sgwrs Sydyn

| | |
|---|---|
| 1 | Ble est ti yn y gwyliau? |
| 2 | Es i i Sbaen gyda'r teulu. Mae Sbaen yn Ewrop. A ti? |
| 1 | Es i i Loegr gyda Mam-gu a Tad-cu. Sut est ti? |
| 2 | Es i mewn awyren o Fanceinion. Dw i'n hoffi mynd mewn awyren achos mae'n hwyl. |
| 1 | Sut roedd y tywydd? |
| 2 | Roedd hi'n heulog ac yn boeth. Roedd y tymheredd yn 32 gradd Celsius. |
| 1 | Beth welaist ti? |
| 2 | Gwelais i gastell, roedd y castell yn fawr. Hefyd, es i i'r traeth a gwelais i bysgod lliwgar. |
| 1 | Beth fwytaist ti? |
| 2 | Bwytais i hufen iâ bob dydd ac yfais i lawer o ddŵr. Dw i'n dwlu ar hufen iâ achos mae'n flasus. |
| 1 | Gest ti amser da? |
| 2 | Do, ces i amser da iawn. Dw i'n hoffi Sbaen achos mae'n fendigedig! |

C.Phillips

# Sgwrs Sydyn





| | |
|---|---|
| 1 | Ble est ti yn y gwyliau? |
| 2 | Es i i Sbaen gyda fy nheulu. Mae Sbaen yn Ewrop. Mae Sbaen ar bwys Portiwgal. Beth amdanat ti? |
| 1 | Es i i Loegr gyda Mam-gu a Tad-cu. Sut est ti? |
| 2 | Es i mewn awyren o Fanceinion. Dw i'n hoffi mynd mewn awyren achos mae'n hwyl. Ces i frecwast hyfryd ar yr awyren. |
| 1 | Sut roedd y tywydd? |
| 2 | Roedd hi'n heulog ac yn boeth bob dydd. Dydd Sadwrn roedd hi'n boeth iawn, roedd hi'n 32 gradd Celsius. Felly, chwaraeais i yn y pwll nofio drwy'r dydd. |
| 1 | Beth welaist ti? |
| 2 | Gwelais i gastell mawr a gwelodd Dad stadiwm pêl-droed Barcelona. Hefyd, es i i'r traeth dydd Mawrth a gwelais i bysgod lliwgar. Dydd Mercher, es i i siopa gyda mam a phrynais i fflip-fflops. |
| 1 | Beth fwytaist ti? |
| 2 | Bwytais i hufen iâ bob dydd ac yfais i lawer o ddŵr achos roedd hi'n boeth. Dw i'n dwlu ar hufen iâ achos mae'n flasus. Dydd Llun, bwytais i paella, ych a fi! |
| 1 | Gest ti amser da yn Sbaen? |
| 2 | Do, ces i amser da iawn. Roeddwn i'n hoffi Sbaen achos roedd y traethau yn fendigedig yno. |

C.Phillips